

ATODIAD 21 – Canllawiau GIG Cymru

Mae gan y GIG ystod eang o bobl a ddisgrifir fel hyfforddeion, sy'n gweithio ac yn astudio o fewn ei wasanaethau.

Dylid defnyddio'r canllawiau atodol hyn ar gyfer recriwtio i swyddi sy'n gymwys o dan y **Trefniadau ar gyfer Cyflog a Bandio Hyfforddeion** Atodiad 21 o Delerau ac Amodau Gwasanaeth y GIG [Atodiad 21](#)

Mae hyfforddeion yn perthyn i dri chategori bras:

(i) hyfforddeion sy'n astudio a/neu'n gweithio yn y GIG, sydd eisoes â chymwysterau ar lefel uchel. Mae staff o'r fath yn aml yn astudio ar gyfer cymhwyster lefel uwch ac yn ymgymryd â rôl y gellir ei hasesu gan ddefnyddio Cynllun Gwerthuso Swyddi'r GIG. Enghraifft o'r categori hwn yw seicolegydd dan hyfforddiant.

Yn yr achosion hyn, mae proffil gwerthuso swydd ar gael i'w ddefnyddio e.e. 'Hyfforddai Seicoleg Glinigol' neu 'Hyfforddai Gwyddonydd Gofal Iechyd Graddedig'.

(ii) hyfforddeion sy'n ymgymryd â chyfnod byr o ddysgu yn y swydd, llai na 12 mis fel arfer. Fel arfer, mae'r staff hyn yn dechrau'r hyfforddiant tra byddant yn eu swyddi. Gellir gwerthuso'r math hwn o hyfforddai hefyd gan ddefnyddio Cynllun Gwerthuso Swyddi'r GIG. Os oes proffiliau yn bodoli ar gyfer y rôl hon, bydd y proffil band isaf yn briodol. Yn ystod cyfnod yr hyfforddeiaeth, ni ddylai deiliad y swydd symud drwy borth sylfaen y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau pan fo hyn yn cael ei ddefnyddio mewn sefydliad. Enghraifft o'r math hwn o hyfforddai yw ysgrifennydd dan hyfforddiant.

Byddai'r 'Ysgrifennydd (Lefel Mynediad)' yn enghraifft dda o hyn. Yn ystod y cyfnod byr o ddysgu byddai deiliad y swydd yn ennill y sgiliau i gyflwyno cais am rôl Ysgrifennydd pan fydd yn barod i symud ymlaen.

(iii) hyfforddeion sy'n dechrau gweithio i'r GIG ac yn ymgymryd â'u holl hyfforddiant tra byddant yn gyflogeion. Fel arfer, mae'r staff hyn yn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau'n sylweddol yn ystod cyfnod o amser a fesurir mewn blyneddau. O ystyried y newid sylweddol mewn gwybodaeth a sgiliau yn ystod y cyfnod hyfforddi, nid yw arfarnu swyddi yn briodol. Dylid pennu tâl fel canran o gyflog staff cymwys.

- Hyd at 12 mis cyn cwblhau hyfforddiant: 75 y cant o uchafswm y band cyflog ar gyfradd unigolyn cwbl gymwys.
- Mwy na blwyddyn ond llai na dwy flynedd cyn cwblhau'r hyfforddiant: 70 y cant o uchafswm y band cyflog ar gyfradd unigolyn cymwys.
- Mwy na dwy flynedd ond llai na thair blynedd cyn cwblhau'r hyfforddiant: 65 y cant o uchafswm y band cyflog ar gyfradd unigolyn cymwys.
- Mwy na thair blynedd ar ôl cwblhau'r hyfforddiant: 60 y cant o uchafswm y band cyflog ar gyfradd unigolyn cymwys.

Wrth gymhathu i'r band cyflog ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, dylai'r hyfforddai nodi naill ai pwynt cyflog cyntaf y band cyflog priodol neu'r pwynt cyflog nesaf uwchlaw cyflog dan hyfforddiant.

Byddai hyn yn berthnasol:

- Pan na fydd gan aelod o staff yr wybodaeth neu'r sgiliau neu'r cymwyseddau llawn eto i gyflawni rôl benodol ond y gallai gael hyfforddiant a chael ei ddatblygu i wneud hynny.
- Pan fydd diffyg ymgeiswyr medrus ar gael i recriwtio o'u plith, gall y gwasanaeth ariannu, hyfforddi a datblygu unigolion ar gyfer y rolau.
- Pan fydd angen cynyddu'r cyfleoedd i recriwtio, drwy ehangu'r meini prawf dethol i'r staff sydd newydd gymhwyso neu'r staff sydd â llai o brofiad trwy gynnig hyfforddiant i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen.

Cyflogau

Ni ddylai tâl cychwynnol unrhyw hyfforddai fod yn llai na phrif gyfradd (oedolyn) Cyflog Byw Gwirioneddol Llywodraeth Cymru. Pan fydd y cyfrifiad uchod yn golygu bod Cyflog Byw Gwirioneddol Llywodraeth Cymru yn daladwy yn ystod yr ail flwyddyn a thu hwnt, dylid rhoi taliad ychwanegol ar ben yr isafswm cyflog. Dylai'r taliad ychwanegol fod yn hafal i werth arian parod y gwahaniaeth rhwng canrannau uchaf y tâl yn y flwyddyn dalu a'r flwyddyn flaenorol. Er enghraifft, byddai'r taliad ychwanegol ym mlwyddyn dau yn werth 65 y cant o uchafswm y band cyflog llai 60 y cant o uchafswm tâl y band.

Bydd adrannau cyflogres yn gallu helpu gyda'r cyfrifiadau hyn ac mae angen manylu ar hyn ar y ffurflen cychwyn/newid ar gyfer y gyflogres i gymhwyso'r gyfradd ganrannol gywir.

Bydd rhai amgylchiadau pan fydd staff presennol yn gwneud cais am y swyddi hyn o dan gategori 3 a bydd eu cyflog hyfforddai newydd yn is na'u cyflog presennol.

Er mwyn helpu i recriwtio a datblygu staff, argymhellir y dylai staff ar draws GIG Cymru gael parhad cyflog am gyfnod yr hyfforddiant er mwyn osgoi anfantais ariannol. Dylai hyn fod yn berthnasol pan fydd staff yn ymgymryd â swyddi hyfforddi o fewn pob sefydliad GIG Cymru.

Yn dilyn yr hyfforddiant hwn, bydd y tâl ar waelod y Band, eto heb unrhyw anfantais ariannol.

Recriwtio a Hysbysebu

Mae categorïau 1 a 2 yn syml gan y byddant wedi'u paru â phroffil lefel mynediad a bydd y disgrifiad swydd cyfatebol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer canlyniad y bandio.

Ar gyfer categori 3 dylid defnyddio'r canlyniad bandio llawn ar gyfer yr hysbyseb ond lle mae hyfforddeion yn mynd i gael eu hystyried, rhaid hysbysebu'r swydd gyda'r opsiwn o Atodiad 21 gyda'r disgrifiad swydd llawn / manyleb y person (JD/PS).

Er enghraifft, os bydd hyfforddai'n cael ei recriwtio i rôl band 7 ac mae'r atodiad yn cael ei gymhwyso, yna'r Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person ar gyfer rôl band 7 sy'n cael eu hysbysebu, nid disgrifiad swydd band 6.

Ni fydd hyfforddeion a gyflogir o dan atodiad 21 yn bodloni meini prawf llawn disgrifiad swydd band 7 ond byddant yn ymrwmo i ymgymryd â'r cynllun hyfforddi dros y cyfnod penodedig i ddatblygu i fodloni dyletswyddau a chyfrifoldebau llawn rôl band 7.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o eiriad y gellid ei ddefnyddio ar gyfer hysbysebion swyddi categori 3 Atodiad 21. Gall y rhain gael eu diweddarau gan sefydliad gan ddibynnu ar yr angen.

byddai angen addasu hyn ar gyfer band y swydd a faint fyddai'r cyfnod datblygu

A – Cynllun datblygu 3 blynedd ar gyfer swydd Band 7

Mae'r swydd yn cael ei hysbysebu fel band 7. Fodd bynnag, anogir ymgeiswyr nad ydynt yn bodloni'r sgiliau a'r cymwyseddau ar gyfer rôl band 7 ar hyn o bryd, i wneud cais ac, os byddant yn llwyddiannus, cânt eu penodi o dan reolau atodiad 21 wedi'u hategu gan gynllun datblygu am 3 blynedd.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, 65% o gyfradd uchaf band 7 fydd y cyflog, 70% yn ystod yr ail flwyddyn a 75% yn ystod y drydedd flwyddyn – (yn amodol ar fodloni meini prawf y cynllun datblygu)

Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus a llwyddo i gyflawni'r sgiliau a'r cymwyseddau ar gyfer y rôl, bydd deiliad y swydd wedyn yn cael ei dalu ar y band 7 llawn (pwynt isaf ar y raddfa yn dilyn y camau cyflog arferol).

Bydd cymorth a goruchwyliaeth barhaus yn cael eu darparu i ddatblygu'r ymarferwr i rôl band 7. Bydd hwn yn gyfle datblygu gwyb i unigolyn band 6 sydd am ddatblygu ei yrfa.

B – Technegydd fferylliaeth wedi'i gofrestru ymlaen llaw ar gyfer swydd Band 4

Atodiad 21 Band 4 - 70% ar gyfer blwyddyn 1 a 75% ar gyfer blwyddyn 2.

Rydym yn edrych am unigolion blaengar, brwdfrydig, trefnus a llawn cymhelliant i ymuno â xxxxxxxx.

Nid oes angen i ymgeiswyr ar gyfer y swydd hon feddu ar y cymwysterau llawn a nodir yn y swydd-ddisgrifiad gan mai swydd **dan hyfforddiant** yw hon. Dylai fod gan ymgeisydd lefel gyffredinol dda o addysg yn ogystal â'r gallu a'r brwdfrydedd i ddilyn rhaglen hyfforddi dwy flynedd a fydd yn ei alluogi i ddod yn dechnegydd fferylliaeth cofrestredig.

Mae rôl y technegydd Fferylliaeth yn amrywiol ac yn ddiddorol ac yn tyfu'n barhaus a dyna pam rydym yn cynnig y cyfle hwn i archwilio rhai o'r rolau arloesol hyn mewn rhaglen hyfforddi amlsector sy'n cylchdroi. Byddwch yn ennill profiad mewn Ysbyty a Fferyllfa Gymunedol yn rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn i Gleifion Mewnol a Chleifion Allanol a chwsmeriaid mewn Fferyllfa Gymunedol ac yn Prynu a Dosbarthu o fewn Ysbyty a Lleoliad yn y Gymuned.

Yn ystod yr hyfforddiant dwy flynedd bydd disgwyl i chi ennill profiad amlsector gan adlewyrchu rolau newidiol a chynyddol y Technegydd Fferylliaeth.

Byddwch yn ymgymryd â dyfarniad Tystysgrif Genedlaethol BTEC mewn Gwyddorau Fferyllol trwy ddysgu o bell, yn ogystal â chasglu portffolio o dystiolaeth i ennill Diploma QCF lefel 3 mewn Sgiliau Gwasanaeth Fferylliaeth. Mae ymrwymiad i astudio y tu allan i oriau gwaith yn hanfodol yn ogystal â'r gallu i gwrdd â'r terfynau amser a osodir yn ystod eich rhaglen hyfforddi.

Byddwch yn cael eich gwobrwyo â chymhwyster technegydd fferylliaeth ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus a fydd yn eich galluogi i wneud cais am swyddi Technegydd Fferylliaeth Band 4.

C – Rhaglen hyfforddiant blwyddyn ar gyfer swydd Band 6

Ymgymryd â rhaglen hyfforddi / fframwaith cymhwysedd flwyddyn o hyd o dan Atodiad 21 Band 6.

Yn ystod y flwyddyn hon byddwch yn sefyll arholiadau ac yn cael hyfforddiant a phrofiad y corff proffesiynol perthnasol i fodloni fframwaith cymhwysedd llawn y Band 6 hwn a byddwch yn gallu cyflawni pob dyletswydd o fewn Rôl Deietegydd Pediatrig Arbenigol fel y nodir yn y disgrifiad swydd hwn.

Cwestiynau Cyffredin

1) Beth sydd angen i ni ei ddarparu ar gyfer yr aelod o staff?

Dylai'r aelod o staff gael ei gynorthwyo'n llawn i gyflawni canlyniadau'r cynllun datblygu. Gall hyn fod ar ffurf mentora, diwrnodau astudio ac ati.

2) Beth os na chyflawnir y cynllun datblygu / cymwyseddau?

Os na fydd yr aelod o staff yn gallu cyflawni hyn er gwaethaf y cymorth priodol, yna dylid ystyried cymhwysedd neu adleoli. Ym mhob achos, hwn fyddai'r opsiwn olaf a dylai rheolwyr geisio cymorth gan eu hadrannau AD lle bo angen.

3) Pwy fyddai'n monitro'r staff?

Dylai'r rheolwr llinell neu'r goruchwyliwr/mentor penodedig eu monitro yn rhan o'r cynllun hyfforddi.

4) A fyddai angen ymrwymiad i staff aros gyda ni am x nifer o flynyddoedd ar ôl iddynt gael eu hyfforddi?

Byddai hyn mewn cytundeb â sefydliadau unigol, ond awgrymir y byddai hyn yn arfer da ac yn helpu i gynllunio'r gweithlu.

5) Beth fydd yn digwydd os oes angen absenoldeb ar gyfer astudio neu gyllid arall i fodloni gofynion y cymwyseddau?

Dylid ystyried hyn pan fydd y swydd yn cael ei chyllidebu, a bydd angen i chi sicrhau bod gennych yr arian sydd ar gael i dalu am y band cyflog llawn unwaith y bydd yr hyfforddiant wedi'i gwblhau.

6) A ddylem geisio recriwtio i'r band yn gyntaf ac ail-hysbysebu fel Atodiad 21 pe byddem yn methu?

Byddai hyn yn dibynnu'n fawr ar y swydd (anodd ei llenwi / problemau hysbys) a'r posibilrwydd o gynllunio olyniaeth yn eich gweithlu eich hun.

Cymeradwywyd gan Bwyllgor Busnes Fforwm Partneriaeth Cymru 11/10/2022
Cymeradwywyd gan Fforwm Llawn Partneriaeth Cymru 17/11/2022